

Canllawiau ar Ddeddfwriaeth Archwilio Cyhoeddus Cymru

Dyddiad cyhoeddi: Ionawr 2019

Cyfeirnod y ddogfen 1006A2019-20



Mae'r ddogfen hon yn amlinellu'r prif awdurdodau statudol sy'n tanategu gwaith Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru. Bwriedir iddi fod yn ddogfen gyfeirio ar gyfer holl staff Swyddfa Archwilio Cymru ac eraill sy'n gwneud gwaith ar ran yr Archwilydd Cyffredinol.

Ni fwriedir i'r ddogfen fod yn grynodeb cyflawn o bob awdurdod perthnasol. Ni ddylid ystyried y dyfyniadau o ddeddfwriaeth berthnasol a gynhwysir yma y tu allan i'w cyd-destun, ac mae angen eu hystyried yng nghyd-destun y gyfraith yn ei chyfanrwydd.

Bydd yr awdurdodau statudol yn newid o bryd i'w gilydd wrth i ddeddfau newydd gael eu gwneud ac eraill cael eu diddymu. Felly, mae Tîm Cyfraith a Moeseg Swyddfa Archwilio Cymru yn bwriadu diweddarur'r ddogfen hon bob blwyddyn.

Nid ydym yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb os bydd unrhyw unigolyn neu sefydliad yn destun hawliad neu atebolrwydd, neu'n dioddef colled neu niwed o ganlyniad iddo fod wedi dibynnu ar unrhyw beth sydd yn y ddogfen hon.

Dylid anfon unrhyw gwestiynau mewn perthynas â'r ddogfen hon at
swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Corresponding in Welsh will not lead to delay.

This document is also available in English. Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Cynnwys

| | |
|---|----|
| Datblygiad swydd yr Archwilydd Cyffredinol a'r awdurdodau statudol cysylltiedig | 4 |
| Swydd yr Archwilydd Cyffredinol | 6 |
| Swyddfa Archwilio Cymru | 13 |
| Paratoi ac archwilio cyfrifon (ac eithrio cyrff llywodraeth leol) | 16 |
| Archwiliad gwerth am arian/perfformiad (ac eithrio cyrff llywodraeth leol) | 24 |
| Archwilio, astudio, asesu ac arolygu llywodraeth leol | 31 |
| Cyhoeddi adroddiadau | 51 |
| Gwaith arall | 52 |
| Ffioedd a chyllid | 56 |

Datblygiad swydd yr Archwilydd Cyffredinol a'r awdurdodau statudol cysylltiedig

- 1 Sefydloedd Deddf Llywodraeth Cymru 1998 (Deddf 1998) Gynulliad Cenedlaethol Cymru a swydd Archwilydd Cyffredinol Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol). O dan y Ddeddf honno, ffurfiwyd y Cynulliad Cenedlaethol fel corff corfforaethol sy'n cyflawni swyddogaethau llywodraethu a chraffu ar ran y Goron.
- 2 O dan Ddeddf 1998, daeth yr Archwilydd Cyffredinol yn archwilydd allanol y Cynulliad Cenedlaethol a'i gyrrf cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad a chyrrf cyhoeddus cysylltiedig eraill (ac eithrio ar gyfer archwiliad blynnyddol cyrrf lleol y GIG) ac roedd ganddo'r pŵer i gynnal ymchwiliadau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodaeth. Roedd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn cynnal y gwaith hwn ar gyfer yr Archwilydd Cyffredinol ar sail statudol. Parhaodd y Comisiwn Archwilio i benodi archwilwyr cyrrf y GIG a chyrrf llywodraeth leol yng Nghymru, ac i gynnal astudiaethau o'r cyrrf hynny. Ehangwyd ei waith pan gafodd bwerau arolygu o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 1999 (Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella).
- 3 Daeth Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004) i rym ar 1 Ebrill 2005, gan ymestyn cylch gwaith yr Archwilydd Cyffredinol i gynnwys archwilio cyrrf y GIG yng Nghymru a swyddogaethau archwilio ac arolygu llywodraeth leol a gyflawnid yn flaenorol gan y Comisiwn Archwilio yng Nghymru. Gwnaeth Deddf 2004 hefyd ddarpariaeth ar gyfer trosglwyddo staff y Swyddfa Archwilio Genedlaethol a'r Comisiwn Archwilio a leolid yng Nghymru i weithio i'r Archwilydd Cyffredinol, gan greu Swyddfa Archwilio Cymru.
- 4 Gwnaeth Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Deddf 2006) ddiddyamu'r Cynulliad Cenedlaethol a ffurfiwyd gan Ddeddf 1998 a'i ddisodli â Chynulliad Cenedlaethol newydd a Gweithrediaeth newydd a oedd ar wahân yn gyfreithiol ac a adwaenid fel 'Llywodraeth Cynulliad Cymru' (Llywodraeth Cymru erbyn hyn). Effaith Deddf 2006 oedd rhoi swyddogaethau llywodraethu un uniongyrchol i Weinidogion Cymru – nid i'r Cynulliad Cenedlaethol. Mae Gweinidogion yn arfer y swyddogaethau hynny ar ran y Goron ac maent yn atebol i'r Cynulliad Cenedlaethol. Bwriad gwahanu'r swyddogaeth weithredol a'r swyddogaeth graffu yn y modd hwn oedd egluro llinellau atebolrwydd a gwahanol gyfrifoldebau Gweinidogion ac Aelodau'r Cynulliad Cenedlaethol yn unol â model Whitehall/San Steffan.
- 5 Daeth Deddf 2006 â fframwaith ariannol newydd ar gyfer y strwythurau datganoledig a chyfrifoldebau newydd ar gyfer yr Archwilydd Cyffredinol. Roedd y rhain yn cynnwys cymeradwyo ceisiadau i ddefnyddio arian o Gronfa Gyfunol Cymru newydd.
- 6 Hefyd rhoddodd Deddf 2006 bwerau i'r Cynulliad Cenedlaethol basio deddfwriaeth newydd (Mesurau gan y Cynulliad) ar faterion penodol wedi'u pennu gan Orchmyntion yn y Cyfrin Gyngor a oedd wedi cael eu cymeradwyo gan ddau Dŷ'r Senedd. O dan y pwerau hyn y disodlodd Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 y

rhan fwyaf o ddarpariaethau Deddf Llywodraeth Leol 1999 mewn perthynas â threfniadau ar gyfer gwella llywodraeth leol.

- 7 Gwnaeth Deddf 2006 hefyd ddarpariaeth i'r Cynulliad Cenedlaethol dderbyn pwerau llawn i lunio deddfau gyda chymhwysedd wedi ei ddatganoli, a chyda Deddf Cyfrifoldeb am Gyllidebau ac Archwilio Cenedlaethol 2011, ychwanegwyd Archwilydd Cyffredinol Cymru at y meysydd gweinyddiaeth gyhoeddus lle y mae cymhwysedd wedi'i ddatganoli. (Mae hyn yn amodol ar rai eithriadau a chyfngiadau, megis deddfwriaeth sy'n ymwneud â rheoleiddio proffesiwn yr archwilydd.) Gyda diwygio'r setliad datganoli gan Ddeddf Cymru 2017, o fod yn fodel rhoi pwerau i fod yn fodel cadw pwerau, mae'r rhan fwyaf o faterion archwilio cyhoeddus yn parhau i fod o dan gymhwysedd wedi'i ddatganoli, ond gyda rhai eithriadau pwysig, megis mewn perthynas â diogelu annibyniaeth yr Archwilydd Cyffredinol (gweler paragraffau 5(2) a (3) o Atodlen 7B i Ddeddf 2006).
- 8 Yn 2013 pasiodd y Cynulliad Cenedlaethol Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 (Deddf 2013). Rhoddodd y Ddeddf gyfrifoldeb newydd i'r Archwilydd Cyffredinol am archwilio cyfrifon cyrff llywodraeth leol yng Nghymru. Gwnaeth hefyd sefydlu Swyddfa Archwilio Cymru fel corff corfforaethol, ac mae'n cynnwys darpariaethau sy'n newid y trefniadau llywodraethu ar gyfer yr Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru, a darpariaethau ar gyfer y berthynas rhwng y ddau. Daeth Deddf 2013 i rym ar 1 Ebrill 2014.
- 9 Cyflwynodd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ddyletswydd ar yr Archwilydd Cyffredinol i gynnal ymchwiliadau i'r rhan fwyaf o'r cyrff cyhoeddus y mae'n eu harchwilio, i asesu i ba raddau y maent wedi gweithredu yn unol â'r 'egwyddor datblygu cynaliadwy' wrth bennu a gosod camau er mwyn cyflawni 'amcanion llesiant'. Rhaid cynnal ymchwiliadau o'r fath o bob corff cyhoeddus o leiaf unwaith yn ystod pob cylch etholiadol y Cynulliad Cenedlaethol.

Swydd yr Archwilydd Cyffredinol

- 10 Mae Swydd yr Archwilydd Cyffredinol yn bodoli yn rhinwedd Adran 2 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013. Mae darpariaeth bellach mewn perthynas â'r Archwilydd Cyffredinol yn Rhan 1 o Ddeddf 2013 ac mae'n cael ei chrynhoi yn Nhabl 1 isod. (Amlinellir darpariaethau ariannol ar wahân ym mharagraff 37 o'r ddogfen hon ac yn Nhabl 8 isod.)

Tabl 1: Darpariaethau'n ymwneud â swydd yr Archwilydd Cyffredinol

| Awdurdod | Cyfeiriad statudol | Darpariaeth |
|--------------------------|--|---|
| Penodi | Adran 2 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 | (2) Ei Mawrhydi sydd i benodi person i fod yn Archwilydd Cyffredinol ar enwebiad y Cynulliad Cenedlaethol. (3) Nid oes enwebiad i gael ei wneud hyd nes bod y Cynulliad Cenedlaethol wedi ei fodloni bod ymgynghoriad rhesymol wedi cael ei wneud gyda'r cyrff hynny yr ymddengys i'r Cynulliad eu bod yn cynrychioli buddiannau cyrff llywodraeth leol yng Nghymru. |
| Cyfnod gwasanaeth | Adran 2 o Ddeddf 2013 Adran 3 o Ddeddf 2013 | (4) Mae'r person sydd wedi ei benodi yn dal y swydd am hyd at 8 mlynedd. (5) Ni chaniateir i'r person gael ei benodi eto. (1) Mae person a benodir yn Archwilydd Cyffredinol yn dal y swydd tan ddiwedd y cyfnod y penodwyd y person hwnnw ar ei gyfer (yn ddarostyngedig i is-adrannau (2) a (3)). (2) Caiff Ei Mawrhydi ryddhau person o'i swydd fel Archwilydd Cyffredinol cyn diwedd y cyfnod y penodwyd y person ar ei gyfer: (a) ar gais y person, neu (b) wedi i'w Mawrhydi gael ei bodloni nad yw'r person yn gallu, oherwydd rhesymau meddygol, cyflawni dyletswyddau'r swydd na gwneud cais i gael ei ryddhau ohoni. (3) Caiff Ei Mawrhydi ddiswyddo person o'i swydd fel Archwilydd Cyffredinol cyn diwedd y cyfnod y penodwyd y person ar ei gyfer ar dderbyn argymhelliaid, ar sail camymddygiad y person, y dylai Ei Mawrhydi wneud hynny. (4) Ni chaniateir gwneud argymhelliaid i ddiswyddo person o'i swydd fel Archwilydd Cyffredinol oni bai: (a) bod y Cynulliad Cenedlaethol wedi penderfynu y dylai'r argymhelliaid gael ei wneud, a (b) bod penderfyniad y Cynulliad wedi ei basio ar bleidleisiau lle yr oedd nifer yr aelodau Cynulliad a bleidleisiodd o blaid yn ddim llai na dwy ran o dair o gyfanswm nifer y seddi yn y Cynulliad. |

| Awdurdod | Cyfeiriad statudol | Darpariaeth |
|--|-----------------------|--|
| Anghymwyso | Adran 4 o Ddeddf 2013 | <p>(1) Ni all person gael ei benodi yn Archwilydd Cyffredinol os yw'r person wedi ei anghymhwysu ar unrhyw un o'r seiliau a bennir yn is-adran (3).</p> <p>(2) Mae person yn peidio â bod yn Archwilydd Cyffredinol os yw'r person yn cael ei anghymhwysu ar unrhyw un o'r seiliau a bennir yn is-adran (3).</p> <p>(3) Mae person wedi ei anghymhwysu rhag bod yn Archwilydd Cyffredinol os yw'r person:</p> <ul style="list-style-type: none"> a) (a) yn Aelod o'r Cynulliad Cenedlaethol; b) (b) yn dal unrhyw swydd arall y caniateir i berson gael ei benodi iddi, ei argymhell ar ei chyfer neu ei enwebu ar ei chyfer, gan neu ar ran y canlynol: <ul style="list-style-type: none"> (i) y Goron, (ii) y Cynulliad Cenedlaethol, neu (iii) Comisiwn y Cynulliad Cenedlaethol; c) yn Aelod o Dŷ'r Cyffredin neu Dŷ'r Arglwyddi; d) yn Aelod o Senedd yr Alban; e) yn Aelod o Gynulliad Gogledd Iwerddon; f) yn gyflwyni i Swyddfa Archwilio Cymru. |
| Cyflogaeth etc cyn-Archwilydd Cyffredinol | Adran 5 o Ddeddf 2013 | Mae cyn-Archwilywyr Cyffredinol yn cael eu hatal rhag cytuno i rai trefniadau a bennir gan y Cynulliad Cenedlaethol. Hefyd rhaid i gyn-Archwilywyr Cyffredinol beidio â dal swydd y caniateir iddynt gael eu penodi iddi gan y Goron, y Cynulliad Cenedlaethol neu'r Comisiwn Cenedlaethol am gyfnod o ddwy flynedd ar ôl iddynt beidio â bod yn Archwilydd Cyffredinol. |
| Annibyniaeth a statws | Adran 6 o Ddeddf 2013 | <p>(2) Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol i'w ystyried yn dal swydd o dan Ei Mawrhydi neu'n un sy'n arfer unrhyw swyddogaeth ar ran y Goron.</p> <p>(3) Ond ystyrir bod yr Archwilydd Cyffredinol yn was i'r Goron at ddibenion Deddf Cyfrinachau Swyddogol 1989.</p> |
| Corfforaeth undyn | Adran 6 o Ddeddf 2013 | (1) Mae'r person sydd am y tro yn dal swydd yr Archwilydd Cyffredinol yn parhau, yn enw'r swydd honno, i fod yn gorfforaeth undyn. |
| Arfer swyddogaethau | Adran 8 o Ddeddf 2013 | <p>(1) Mae gan yr Archwilydd Cyffredinol ddisgresiwn llwyr o ran y modd y mae swyddogaethau'r swydd honno yn cael eu harfer ac nid yw'n ddarostyngedig i gyfarwyddyd na rheolaeth y Cynulliad Cenedlaethol na Llywodraeth Cymru.</p> <p>(2) Ond mae'r disgrifiwn hwn yn ddarostyngedig i is-adran (3).</p> <p>(3) Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol:</p> <ul style="list-style-type: none"> a) (a) anelu at gyflawni ei swyddogaethau yn effeithlon ac yn gosteffeithiol; b) (b) rhoi sylw, fel y mae'n ystyried yn briodol, i'r safonau a'r egwyddorion y disgwylir i ddarparwr |

| Awdurdod | Cyfeiriad statudol | Darpariaeth |
|----------|------------------------|---|
| | Adran 10 o Ddeddf 2013 | <p>arbenigol proffesiynol mewn cyfrifyddiaeth neu wasanaethau archwilio eu dilyn;</p> <p>c) rhoi sylw i gyngor a roddir iddo gan Swyddfa Archwilio Cymru.</p> <p>(1) Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol ddyroddi cod ymarfer archwilio sy'n rhagnodi'r modd y mae swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol a bennir yn is-adran (2) i'w cyflawni.</p> <p>(2) Dyma'r swyddogaethau:</p> <ul style="list-style-type: none"> a) cynnal ymchwiliad i unrhyw gyfrifon neu ddatganiadau o gyfrifon sydd yn agored i'r Archwilydd Cyffredinol ymchwilio iddynt yn unol â darpariaeth a wneir drwy ddeddfiad neu yn rhinwedd deddfiad; b) cynnal neu hybu astudiaethau neu ymchwiliadau gwerth am arian neu ymgymryd â hwy, yn unol â darpariaeth a wneir drwy ddeddfiad neu yn rhinwedd deddfiad; c) y rhai hynny sydd wedi eu cynnwys yn y darpariaethau canlynol o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, neu sydd wedi eu trosglwyddo i'r Archwilydd Cyffredinol odanynt: <ul style="list-style-type: none"> (i) adran 145A(2) (ymgymryd ag astudiaethau eraill, neu hybu astudiaethau eraill, sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau gan gyrrf penodol); (ii) adran 145C(8) (datgelu gwybodaeth i Weinidogion Cymru a gafwyd yn ystod astudiaeth mewn perthynas â landlord cymdeithasol cofrestredig); (iii) adran 145D (darparu cyngor a chymorth i landlord cymdeithasol cofrestredig); (iv) adran 146 (trosglwyddo swyddogaethau'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol sy'n ymwneud â chyrrf penodol i'r Archwilydd Cyffredinol); (v) adran 146A (trosglwyddo etc swyddogaethau goruchwyllo Gweinidogion Cymru sy'n ymwneud â chyrrf penodol i'r Archwilydd Cyffredinol); (vi) adran 147 (trosglwyddo swyddogaethau'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol sy'n ymwneud ag Asiantaeth yr Amgylchedd i'r Archwilydd Cyffredinol); d) y rhai hynny sydd wedi eu cynnwys yn y darpariaethau canlynol o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004: |

| Awdurdod | Cyfeiriad statudol | Darpariaeth |
|-------------------------------|--|--|
| | | <p>(i) Rhan 2 (archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru);</p> <p>(ii) adran 45 (cynnal, neu gynorthwyo'r Ysgrifennydd Gwladol i gynnal, astudiaethau gweinyddu budd-dal);</p> <p>(iii) adran 51 (cyfeirio materion sy'n ymwneud â nawdd cymdeithasol at yr Ysgrifennydd Gwladol);</p> <p>e) y rhai hynny sydd wedi eu cynnwys yn y darpariaethau canlynol o Atodlen 8 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006:</p> <ul style="list-style-type: none"> (i) paragraff 17 (mynediad at ddogfennau); (ii) paragraff 20 (ardystio hawliadau, ffurflenni etc ar gais corff). <p>(3) Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gydymffurfio â'r cod.</p> <p>(4) Rhaid i'r cod ymgorffori'r hyn yr ymddengys i'r Archwilydd Cyffredinol yn arfer proffesiynol gorau o ran y safonau, gweithdrefnau a thechnegau sydd i'w mabwysiadu wrth gyflawni swyddogaethau o fath a bennir yn is-adran (2).</p> |
| Mynediad at ddogfennau | Paragraff 17 o Atodlen 8 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 | <p>(1) The Auditor General has a right of access at all reasonable times to every document relating to a relevant person which appears to the Auditor General necessary:</p> <ul style="list-style-type: none"> (a) for the purposes of the Auditor General's examination of any auditable accounts, (b) for the purposes of undertaking studies under section 145A (studies for improving economy etc. in services provided by relevant bodies) or 145C (studies relating to registered social landlords) of the Government of Wales Act 1998, or (c) for the purposes of carrying out, in accordance with any provision made by virtue of this or any other enactment, other examinations or studies into the economy, efficiency and effectiveness with which a person has used resources in discharging the person's functions. <p>(2) The documents relating to a relevant person to which the right conferred by sub-paragraph (1) applies include (in particular):</p> <ul style="list-style-type: none"> (a) a document which is in the possession, or under the control, of a person who has received financial assistance from the relevant person by means of a grant, loan or guarantee or as a result of the taking of an interest in any property or body corporate, (b) a document which is in the possession, or under the control, of a person who has supplied goods or |

| Awdurdod | Cyfeiriad statudol | Darpariaeth |
|----------|--------------------|--|
| | | <p>services to the relevant person in pursuance of a contract to which the relevant person was party or has supplied goods or services in pursuance of a relevant subcontract, and</p> <p>(c) a document of a description specified in an order made by the Welsh Ministers.</p> <p>(3) The Auditor General may require a person whom the Auditor General thinks has information of the kind mentioned in sub-paragraph (4):</p> <ul style="list-style-type: none"> (a) to give the Auditor General any assistance, information and explanation which the Auditor General thinks necessary for any of the purposes mentioned in sub-paragraph (1), (b) to attend before the Auditor General in person to give the assistance, information or explanation, or to produce any document which is in the possession, or under the control, of the person and to which the right conferred by that sub-paragraph applies, or (c) to provide any facility which the Auditor General may reasonably require for any of the purposes mentioned in that sub-paragraph. <p>(4) The information referred to in sub-paragraph (3) is information which relates to:</p> <ul style="list-style-type: none"> (a) a relevant person, (b) a document to which the right conferred by sub paragraph (1) applies, or (c) a person who possesses or controls such a document. <p>(5) The Auditor General may, for the purposes of an examination of any auditable accounts, require a relevant person to provide the Auditor General, at times specified by the Auditor General, with accounts of such of the person's transactions as the Auditor General may specify.</p> <p>Mae'r ddarpariaeth hon yn berthnasol i hawliau mynediad yr Archwilydd Cyffredinol i ddogfennau a gwybodaeth at ddibenion archwilio cyfrifon ac ymchwilio i berfformiad. Mae Deddf 2004 hefyd yn gwneud darpariaeth ar wahân ar gyfer mynediad yr Archwilydd Cyffredinol i ddata at ddibenion paru data ac o ran archwilio cyfrifon cyrff llywodraeth leol. Mae Tabl 7 yn darparu rhagor o wybodaeth am swyddogaethau paru data. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am hawliau mynediad yn y daflen 'Hawliau mynediad Archwilydd Cyffredinol Cymru', sydd ar gael ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru.</p> |

| Awdurdod | Cyfeiriad statudol | Darpariaeth |
|---------------|--|--|
| Pwerau eraill | Paragraff 18 o Atodlen 8 i Ddeddf 2006 | <p>(1) Where:</p> <ul style="list-style-type: none"> (a) the Welsh Ministers are entitled to appoint the auditor of the accounts of any person (other than the Auditor General), and (b) the Auditor General would not otherwise be eligible to be appointed as auditor of those accounts, <p>the Welsh Ministers may, having first consulted the Wales Audit Office, appoint the Auditor General to be auditor of those accounts.</p> <p>(2) If in such a case the auditor is to be appointed annually, the Welsh Ministers may appoint the Auditor General:</p> <ul style="list-style-type: none"> (a) for a year, (b) for two or more years, or (c) indefinitely until further exercise of the power of appointment. <p>(3) The Auditor General may:</p> <ul style="list-style-type: none"> (a) examine, certify or report on a person's accounts, or (b) carry out examinations into the economy, efficiency and effectiveness with which a person has used resources in discharging the person's functions, <p>if provision is made for the Auditor General to do so by an agreement entered into by the person with either the Welsh Ministers or a Minister of the Crown.</p> <p>(3A) But before entering into an agreement under sub paragraph (3), the Welsh Ministers or a Minister of the Crown (as the case may be) must consult the Wales Audit Office.</p> <p>(4) In determining how to exercise functions under paragraph (b) of sub-paragraph (3) the Auditor General must take into account the Audit [Public Accounts] Committee's views as to the examinations which the Auditor General should carry out under that paragraph.</p> <p>Mae (1) yn galluogi Gweinidogion Cymru i benodi'r Archwilydd Cyffredinol fel archwilydd unrhyw gorff cyhoeddus os oes ganddynt y pŵer i benodi, ond ni fyddai ganddynt y pŵer fel arall i benodi'r Archwilydd Cyffredinol (fel sy'n wir, er enghraifft, gyda chorfforaethau datblygu trefol). Mae (3) yn galluogi'r Archwilydd Cyffredinol i archwilio cyfrifon a gwneud gwaith gwerth am arian drwy gytundeb.</p> <p>(1) Caiff yr Archwilydd Cyffredinol wneud unrhyw beth a fwriedir i hwyluso arfer unrhyw un neu ragor o'i swyddogaethau, neu sy'n ffafriol i'w harfer neu'n gysylltiedig â'u harfer.</p> |
| | Adran 9 o Ddeddf 2013 | |

| Awdurdod | Cyfeiriad statudol | Darpariaeth |
|---|--|--|
| | | (2) Ond ni chaiff yr Archwilydd Cyffredinol wneud unrhyw beth sydd yn, neu a allai ddod yn, gyfrifoldeb i Swyddfa Archwilio Cymru, yn rhinwedd paragraffau (a) i (c) o adran 21(2) (darparu adnoddau ar gyfer arfer swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol). |
| Adroddiadau er budd y cyhoedd | Paragraff 19 o Atodlen 8 i Ddeddf 2006 | <p>(1) If the Auditor General thinks that it would be in the public interest to bring to the public's attention a matter coming to the Auditor General's notice in the course of an examination or study to which sub-paragraph (2) applies, the Auditor General may prepare a report on that matter.</p> <p>(2) This sub-paragraph applies to:</p> <ul style="list-style-type: none"> (a) an examination of auditable accounts (other than accounts falling to be examined under paragraph 18(3)(a)), and (b) an examination or study under section 135 or 140 of this Act, section 145 of the Government of Wales Act 1998 (c. 38) (examinations into use of resources by body specified in Schedule 17 to that Act) or section 145A of that Act (studies for improving economy etc. in services provided by relevant bodies), except one undertaken at the request of the body or bodies to which it relates. <p>(3) The Auditor General must, as soon as practicable after preparing a report under sub-paragraph (1), lay the report before the Assembly.</p> |
| Trosglwyddo etc swyddogaethau Gweinidogion Cymru | Adran 146A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 | <p>(1) The Welsh Ministers may, with the consent of the Auditor General for Wales, by order provide for any of their supervisory functions in respect of a public body or a registered social landlord:</p> <ul style="list-style-type: none"> (a) to be exercised on their behalf by the Auditor General for Wales; or (b) to be transferred to the Auditor General for Wales. <p>(1A) But before making an order under subsection (1) the Welsh Ministers must consult the Wales Audit Office.</p> <p>Mae'r ddarpariaeth hon yn caniatáu i Weinidogion Cymru drosglwyddo eu swyddogaethau archwilio, arolygu, adolygu neu astudio eu hunain mewn perthynas â'r cyrrf o dan sylw i'r Archwilydd Cyffredinol. Rhaid i'r gorchymyn trosglwyddo gael cydsyniad yr Archwilydd Cyffredinol a chael ei gymeradwyo gan y Cynulliad Cenedlaethol.</p> |

Swyddfa Archwilio Cymru

- 11 Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn cael ei sefydlu fel corfforaeth yn Rhan 2 o Ddeddf 2013. Mae rhagor o ddarpariaeth yn ymwneud â Swyddfa Archwilio Cymru wedi'i chynnwys yn Atodlen 1 i Ddeddf 2013 ac mae adrannau perthnasol dwy ran y Ddeddf wedi'u cynnwys isod yn **Nhabl 2**.

Tabl 2: Darpariaethau sy'n berthnasol i Swyddfa Archwilio Cymru

| Awdurdod | Cyfeiriad statudol | Darpariaeth |
|--|--|---|
| Ymgorffori Swyddfa Archwilio Cymru | Adran 13 o Ddeddf 2013 | (1) Bydd corff corfforaethol o'r enw Swyddfa Archwilio Cymru ("SAC"). |
| Aelodaeth | Paragraff 1 o Atodlen 1 i Ddeddf 2013 | (1) Mae SAC i gael 9 aelod. (2) Dyma hwy: (a) 5 person nad ydynt yn gyflogion i SAC ("aelodau anweithredol") (gweler Rhan 2 o'r Atodlen hon), (b) yr Archwilydd Cyffredinol (gweler Rhan 3 o'r Atodlen hon), ac (c) 3 chyflwyniadau i SAC ("yr aelodau sy'n gyflogion") (gweler Rhannau 4 a 5 o'r Atodlen hon). |
| Penodi aelodau anweithredol ac aelodau sy'n gyflogion | Paragraff 2 o Atodlen 1 i Ddeddf 2013 | (1) Mae aelodau SAC (ar wahân i'r Archwilydd Cyffredinol) i'w penodi yn unol â darpariaethau'r Atodlen hon. (2) Rhaid gwneud pob penodiad ar sail teilyngdod. |
| | Paragraff 4 o Atodlen 1 i Ddeddf 2013 | (1) Mae aelodau anweithredol i'w penodi gan y Cynulliad Cenedlaethol. (2) Rhaid i benodiadau a wneir o dan is-baragraff (1) gael eu gwneud ar sail canlyniadau cystadleuaeth deg ac agored. |
| | Paragraff 5 o Atodlen 1 i Ddeddf 2013 | (1) Mae cadeirydd ar SAC i'w benodi gan y Cynulliad Cenedlaethol o blith yr aelodau anweithredol. (2) Ond cyn penodi'r cadeirydd rhaid ymgynghori â'r Prif Weinidog. (3) Caiff y Cynulliad Cenedlaethol estyn penodiad o dan y paragraff hwn yn unol â'r weithdrefn sy'n ofynnol ar gyfer y penodiad gwreiddiol. |
| | Paragraff 15 o Atodlen 1 i Ddeddf 2013 | (1) Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol argymhell person i'r aelodau anweithredol i'w benodi o dan y paragraff hwn. (2) Rhaid i'r aelodau anweithredol: a) (a) penodi'r person hwnnw, neu |

| Awdurdod | Cyfeiriad statudol | Darpariaeth |
|-----------------|--|--|
| | Paragraff 16 o Atodlen 1 i Ddeddf 2013 | <p>b) (b) ei gwneud yn ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol argymhell person arall (os felly bydd yr is-baragraff hwn yn gymwys dro ar ôl tro hyd nes bod rhywun wedi ei benodi'n aelod).</p> <p>(1) Rhaid i SAC gynnal pleidlais o'i staff at ddiben penodi person neu bersonau, yn ôl y digwydd, o dan y paragraff hwn.</p> <p>(2) Mae'r aelodau etholedig i'w penodi gan yr aelodau anweithredol yn unol â chanlyniad y bleidlais.</p> |
| Statws | Paragraff 3 o Atodlen 1 i Ddeddf 2013 | <p>(1) Nid yw SAC nac unrhyw un o'i haelodau i'w hystyried neu ei ystyried:</p> <ul style="list-style-type: none"> a) (a) yn was neu'n asiant i'r Goron, na b) (b) yn mwynhau unrhyw statws, imiwnedd na braint sydd gan y Goron. <p>(2) Ond ystyrir bod aelodau SAC yn weision y Goron at ddibenion Deddf Cyfrinachau Swyddogol 1989.</p> <p>(3) Nid yw eiddo SAC i'w ystyried yn eiddo i'r Goron neu'n eiddo sy'n cael ei ddal ar ran y Goron.</p> |
| Pwerau | Adran 14 o Ddeddf 2013 | Caiff SAC wneud unrhyw beth (gan gynnwys caffael neu waredu unrhyw eiddo neu hawliau a derbyn rhoddion ar ffurf arian neu eiddo arall) a fwriedir i hwyluso arfer unrhyw un neu ragor o'i swyddogaethau, neu sy'n ffafriol i'w harfer neu'n gysylltiedig â'u harfer. |
| Effeithlonrwydd | Adran 15 o Ddeddf 2013 | Rhaid i SAC anelu at gyflawni ei swyddogaethau yn effeithlon ac yn gosteffeithiol. |
| Swyddogaethau | Adran 17 o Ddeddf 2013 | <p>(1) Rhaid i SAC, yn y modd hwnnw y mae'n ei ystyried yn briodol, fonitro sut y mae'r Archwilydd Cyffredinol yn arfer ei swyddogaethau.</p> <p>(2) Caiff SAC ddarparu cyngor i'r Archwilydd Cyffredinol yngylch arfer ei swyddogaethau.</p> <p>(3) Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol roi sylw i unrhyw gyngor a roddir iddo.</p> |
| | Adran 18 o Ddeddf 2013 | <p>(1) Caniateir i'r Archwilydd Cyffredinol ddirprwyo unrhyw un neu ragor o swyddogaethau'r swydd honno i:</p> <ul style="list-style-type: none"> a) Cyflogai i SAC, b) Person sy'n darparu gwasanaethau i SAC, neu c) Cyflogai i SAC a pherson sy'n darparu gwasanaethau i SAC, yn gweithredu ar y cyd. |
| | Adran 19 o Ddeddf 2013 | (1) Caniateir i drefniadau gael eu gwneud rhwng SAC ac awdurdod perthnasol ar gyfer y canlynol: |

| Awdurdod | Cyfeiriad statudol | Darpariaeth |
|----------|--|--|
| | | <ul style="list-style-type: none"> a) bod unrhyw un neu ragor o swyddogaethau'r awdurdod i gael ei harfer neu eu harfer gan SAC neu gan gyflogai i SAC; b) bod unrhyw un neu ragor o swyddogaethau'r awdurdod i gael ei harfer neu eu harfer gan yr Archwilydd Cyffredinol; c) bod gwasanaethau technegol, proffesiynol neu weinyddol yn cael eu darparu: <ul style="list-style-type: none"> (i) gan SAC i'r awdurdod, neu at ddibenion yr awdurdod, (ii) gan yr awdurdod neu ar ei ran, i SAC, neu (iii) gan yr awdurdod neu ar ei ran i'r Archwilydd Cyffredinol[.] |
| Staff | Paragraff 22 o Atodlen 1 i Ddeddf 2013 | <p>(1) Caiff SAC gyflogi staff.</p> <p>(2) Ni all person gael ei benodi yn aelod o staff SAC os yw'r person wedi ei anghymhwys o rhag cael ei benodi ar unrhyw un o'r seiliau a bennir yn Rhan 6 o'r Atodlen hon.</p> <p>(3) Bydd person yn peidio â bod yn aelod o staff SAC os yw'r person wedi ei anghymhwys o unrhyw un o'r seiliau hynny.</p> <p>(4) Bydd staff SAC yn cael eu cyflogi ar y telerau hynny y caniateir i SAC eu penderfynu.</p> <p>(5) Ni chaiff person sy'n gyflogai i SAC ddal unrhyw swydd y caniateir penodi person iddi, argymhell person ar ei chyfer neu enwebu person ar ei chyfer gan neu ar ran y Goron, y Cynulliad Cenedlaethol neu Gomisiwn y Cynulliad Cenedlaethol.</p> |
| | Paragraff 23 o Atodlen 1 i Ddeddf 2013 | Nid yw aelod o staff SAC i'w ystyried– <ul style="list-style-type: none"> a) Yn was neu'n asiant i'r Goron, neu b) Yn mwynhau unrhyw statws, imiwnedd na braint sydd gan y Goron. |
| | Paragraff 24 o Atodlen 1 i Ddeddf 2013 | Ond ystyrir bod aelod o staff SAC yn was y Goron at ddibenion Deddf Cyfrinachau Swyddogol 1989. |

Paratoi ac archwilio cyfrifon (ac eithrio cyrff llywodraeth leol)

- 12 Mae **Tabl 3** isod yn crynhoi'r ddeddfwriaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyrrf nad ydynt yn gysylltiedig â llywodraeth leol baratoi cyfrifon i'w harchwilio gan yr Archwilydd Cyffredinol.
- 13 Mae'r rhan fwyaf o'r cyfrifon a restrir yn **Nhabl 3** yn cael eu harchwilio drwy statud yn hytrach na thrwy gytundeb. Fel arfer, mae'r statudau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol archwilio, ardystio ar adrodd ar y cyfrifon a'u gosod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol. Mae'n rhaid i unrhyw gyfrifon sy'n cael eu cyflwyno yn y ffordd hon gael eu cyhoeddi gan y Cynulliad Cenedlaethol yn rhinwedd Adran 144 o Ddeddf 2006, ac mae Adran 143 yn eu rhoi o fewn cylch gwaith Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol.
- 14 O dan Adran 144 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, caiff Gweinidogion Cymru, drwy orchymyn, wneud darpariaeth ar gyfer cyfrifon ac archwilio unrhyw gorff cyhoeddus a restrir yn Atodlen 17 i'r Ddeddf honno. Caiff Gweinidogion hefyd ychwanegu rhai cyrff cyhoeddus at yr atodlen honno trwy orchymyn yn amodol ar gymeradwyaeth gan y Cynulliad Cenedlaethol. Gellir defnyddio'r ddarpariaeth hon i ymestyn cylch gwaith yr Archwilydd Cyffredinol, er enghraifft, i gorfforaethau addysg bellach neu addysg uwch neu gwmniau 'dielw'¹ yn sector cyhoeddus Cymru. Roedd y cyrff cyhoeddus yn **Nhabl 3** a oedd yn bodoli cyn i'r Cynulliad Cenedlaethol gael ei sefydlu yn 1999, hyd yr adeg honno, yn cael eu harchwilio gan y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol. Trosglwyddwyd yr archwiliadau hynny i'r Archwilydd Cyffredinol drwy Orchymyn yn y Cyfrin Gyngor o dan Adran 22 o Ddeddf Llywodraeth Cymru.²
- 15 Mae cyrff y GIG yng Nghymru yn cael eu harchwilio o dan Adran 61 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol, wrth archwilio'r cyfrifon, fodloni ei hun fod y corff o dan sylw wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran y ffordd mae'n defnyddio ei adnoddau. Nid yw'r gofyniad hwn yn berthnasol i gyrrf eraill a restir yn **Nhabl 3**.

¹ Mae Adran 482 o Ddeddf Cwmniau 2006 yn eithrio 'cwmniau dielw' yn y sector cyhoeddus o ofynion Rhan 16 o'r Ddeddf honno, os ydynt yn cael eu harchwilio gan yr Archwilydd Cyffredinol drwy gytundeb o dan baragraff 18 o Atodlen 8 i Ddeddf 2006, neu drwy orchymyn o dan Adran 144 o Ddeddf 1998.

² Mae Adran 22 o Ddeddf 1998 bellach wedi cael ei diddymu, ond mae'r gorchmyndion a wnaed dani'n parhau i fod yn weithredol, ac ystyri'r iddynt gael eu gwneud o dan Adran 58 o Ddeddf 2006.

Tabl 3: Cyfrifon sy'n cael eu harchwilio gan yr Archwilydd Cyffredinol

| Cyfrifon | Awdurdod i'w paratoi | Cyhoeddwyd y cyfarwydd yd ar gyfer y cyfrifon gan | Awdurdod i archwilio | A gawsant eu gosod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol? |
|---|--|---|---|--|
| Gweinidogion Cymru | Adran 131 o Ddeddf 2006 | Y Trysorlys | Adran 131 o Ddeddf 2006 | Do |
| Cronfa Gyfunol Cymru | Adran 132 o Ddeddf 2006 | Y Trysorlys | Adran 132 o Ddeddf 2006 | Do |
| Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru | Adran 137 o Ddeddf 2006 | Y Trysorlys | Adran 137 o Ddeddf 2006 | Do |
| Cyfrif Llywodraeth Cymru gyfan (paratowyd gan Weinidogion Cymru) | Adran 141 o Ddeddf 2006 | Y Trysorlys | Adran 142 o Ddeddf 2006 | Do |
| Cronfa Pensiynau Aelodau'r Cynulliad Cenedlaethol | Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gofyniad i dderbyn Cyfrifon Archwiliadig a Datganiad gan yr Archwilydd) 1996 | Amherthnasol – mae'r ymddiriedol wyr wedi dewis paratoi cyfrifon yn unol â'r Datganiad o'r Arfer a Argymhellir ar gyfer Adroddiadau Ariannol Cynlluniau Pensiwn | Paragraff 18 o Atodlen 8 i Ddeddf 2006 | Do (gan yr ymddiriedol wr) |
| Cyngor Celfyddydau Cymru | Erthygl 11 o Siarter Frenhinol y Cyngor a Rheoliadau | Gweinidogion Cymru | Erthygl 11 o Siarter Frenhinol y Cyngor | Do |

| Cyfrifon | Awdurdod i'w paratoi | Cyhoeddwyd yd y cyfarwydd yd ar gyfer y cyfrifon gan | Awdurdod i archwilio | A gawsant eu gosod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol? |
|--|--|---|--|--|
| | Elusennau (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008 | | | |
| Dewis Gyrfa | Adran 394 o Ddeddf Cwmniâu 2006 | | Paragraff 18 o Atodlen 8 i Ddeddf 2006 | Naddo |
| Cyngor Gofal Cymru | Paragraff 16 o Atodlen 2 i Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 | Gweinidogion Cymru | Paragraff 16 o Atodlen 2 i Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 | Naddo |
| Cyrff elusennol ag ymddiriedolwyr awdurdod lleol | Rheoliadau Elusennau (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008 | Amherthnasol – mae'r ymddiriedolwyr yn paratoi cyfrifon yn unol â'r Datganiad o'r Arfer a Argymhellir ar gyfer Cyfrifyddu ac Adrodd gan Elusennau | Adran 19 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 | Naddo |
| Comisiynydd Plant Cymru | Paragraff 7 o Atodlen 2 i Ddeddf Safonau Gofal 2000 | Gweinidogion Cymru | Paragraff 9 o Atodlen 2 i Ddeddf Safonau Gofal 2000 | Do |
| Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru | Paragraff 10 o Atodlen 1 i Ddeddf Comisiynydd | Gweinidogion Cymru | Paragraff 12 o Atodlen 1 i Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006 | Do |

| Cyfrifon | Awdurdod i'w paratoi | Cyhoeddwyd yd y cyfarwydd yd ar gyfer y cyfrifon gan | Awdurdod i archwilio | A gawsant eu gosod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol? |
|---|--|--|--|--|
| | Pobl Hŷn (Cymru) 2006 | | | |
| Cyngor y Gweithlu Addysg | Paragraff 21 o Atodlen 1 i Ddeddf Addysg (Cymru) 2014 | Gweinidogion Cymru | Paragraff 21 o Atodlen 1 i Ddeddf Addysg (Cymru) 2014 | Do |
| Estyn | Paragraff 5 o Atodlen 6 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 | Y Trysorlys | Paragraff 6 o Atodlen 6 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 | Do |
| Arian a gedwir dan ymddiried gan gyrrf y GIG yng Nghymru | Rheoliadau Elusennau (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008 | Amherthnasol – mae'r ymddiriedol wyr yn paratoi cyfrifon yn unol â'r Datganiad o'r Arfer a Argymhellir ar gyfer Cyfrifyddu ac Adrodd gan Elusennau | Adran 150 o Ddeddf Elusennau 2011 | Naddo |
| Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ar gyfer Cymru | Paragraff 20 o Atodlen 2 i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 | Gweinidogion Cymru (gyda chydsyniad y Trysorlys) | Paragraff 21 o Atodlen 2 i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 | Do |
| Addysg a Gwella Iechyd Cymru (awdurdod iechyd arbennig) | Rheoliad 17 o Reoliadau Addysg a Gwella Iechyd Cymru 2017 | Gweinidogion Cymru | Adran 61 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 | Do |
| Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru | Paragraff 16 o Atodlen 1 i | Gweinidogion Cymru | Paragraff 16 o Atodlen 1 i | Do |

| Cyfrifon | Awdurdod i'w paratoi | Cyhoeddwyd y cyfarwydd yd ar gyfer y cyfrifon gan | Awdurdod i archwilio | A gawsant eu gosod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol? |
|---|---|---|---|--|
| | Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 | | Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 | |
| Hybu Cig Cymru | Adran 394 o Ddeddf Cwmniâu 2006 | | Paragraff 18 o Atodlen 8 i Ddeddf 2006 | Naddo |
| Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru | Adran 19 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 | Gweinidogion Cymru | Adran 19 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 | Do |
| Byrddau Iechyd Lleol | Paragraff 3 o Atodlen 9 i Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 | Gweinidogion Cymru | Adran 61 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 | Do |
| Cyfrifon cryno cyrff y GIG (paratowyd gan Weinidogion Cymru) | Paragraff 5 o Atodlen 9 i Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 | Y Trysorlys | Paragraff 5 o Atodlen 9 i Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 | Do (gan Weinidogion) |
| Ymddiriedolaethau'r GIG | Paragraff 3 o Atodlen 9 i Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 | Gweinidogion Cymru | Adran 61 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 | Do |
| Llyfrgell Genedlaethol Cymru | Adran 9 o Ddeddf Amgueddfeyd d ac Orielau 1992 | Gweinidogion Cymru | Adran 9 o Ddeddf Amgueddfeyd d ac Orielau 1992 | Do |

| Cyfrifon | Awdurdod i'w paratoi | Cyhoeddwyd y cyfarwydd yd ar gyfer y cyfrifon gan | Awdurdod i archwilio | A gawsant eu gosod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol? |
|---|--|---|--|--|
| Cronfa Pensiynau'r Llyfrgell Genedlaethol | Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gofyniad i dderbyn Cyfrifon Archwiliadig a Datganiad gan yr Archwilydd) 1996 | Amherthnasol – mae'r ymddiriedol wyr yn paratoi cyfrifon yn unol â'r Datganiad o'r Arfer a Argymhellir ar gyfer Adroddiadau Ariannol Cynlluniau Pensiwn | Paragraff 18 o Atodlen 8 i Ddeddf 2006 | Naddo |
| Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru | Adran 9 o Ddeddf Amgueddfeydd ac Orielau 1992 | Gweinidogion Cymru | Adran 9 o Ddeddf Amgueddfeydd ac Orielau 1992 | Do |
| Corff Adnoddau Naturiol Cymru | Paragraff 23 o'r Atodlen i Orchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012 | Gweinidogion Cymru | Paragraff 23 o'r Atodlen i Orchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012 | Do |
| Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru | Paragraff 16 o Atodlen 1 i Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005 ³ | Y Trysorlys | Paragraff 17 o Atodlen 1 i Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005 | Do |
| Cymwysterau Cymru | Paragraff 32 o Atodlen 1 i Ddeddf | Gweinidogion Cymru | Paragraff 33 o Atodlen 1 i Ddeddf | Do |

³ Yn 2017, cyflwynwyd Bil a fydd yn ailddeddfu'r darpariaethau hyn. Mae'r Bil wedi parhau ar ei ffordd drwy'r Cynulliad yn ystod 2018 ac mae'n debygol y bydd yn cael ei basio yn 2019.

| Cyfrifon | Awdurdod i'w paratoi | Cyhoeddwyd yd y cyfarwydd yd ar gyfer y cyfrifon gan | Awdurdod i archwilio | A gawsant eu gosod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol? |
|---|---|---|---|---|
| | Cymwysterau Cymru 2015 | | Cymwysterau Cymru 2015 | |
| Sector Development Wales Partnership | Adran 394 o Ddeddf Cwmnïau 2006 | | Paragraff 18 o Atodlen 8 i Ddeddf 2006 | Naddo |
| Cyngor Chwaraeon Cymru | Erthygl 15 o Siarter Frenhinol y Cyngor | Gweinidogion Cymru | Paragraff 18 o Atodlen 8 i Ddeddf 2006 | Do (gan y Cyngor) |
| Paneli Cynllunio Strategol | Paragraff 21 o Atodlen 2A i Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (wedi'i fewnosod gan Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015) | Gweinidogion Cymru | Paragraff 21 o Atodlen 2A i Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 | Naddo (ond mae'n rhaid anfon datganiad o gyfrifon wedi'i ardystio ac adroddiad arnynt at (a) yr awdurdodau cynllunio lleol cyfansoddola (b) Gweinidogion Cymru) |
| Ymddiriedolaeth Cyngor Chwaraeon Cymru | Rheoliadau Elusennau (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008 | Amherthnasol – mae'n ofynnol i ymddiriedol wyr baratoi cyfrifon yn unol â'r Datganiad o'r Arfer a Argymhellir ar gyfer Cyfrifyddu ac Adrodd gan Elusennau | Paragraff 18 o Atodlen 8 i Ddeddf 2006 | Naddo |

| Cyfrifon | Awdurdod i'w paratoi | Cyhoeddwyd yd y cyfarwydd yd ar gyfer y cyfrifon gan | Awdurdod i archwilio | A gawsant eu gosod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol? |
|---|---|--|---|--|
| Comisiynydd y Gymraeg | Paragraff 18 o Atodlen 1 i Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 | Gweinidogion Cymru | Paragraff 19 o Atodlen 1 i Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 | Do |
| Ardrethu annomestig Cymru (paratowyd gan Weinidogion Cymru) | Paragraff 1 o Atodlen 8 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 | Y Trysorlys | Paragraff 1 o Atodlen 8 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 | Do |
| Awdurdod Cyllid Cymru | Adran 29 o Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 | Gweinidogion Cymru | Adran 31 o Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 | Do |
| | | <p>(a) a document which is held or controlled by a person who has received financial assistance from the body by means of a grant, loan or guarantee or as a result of the taking of an interest in any property or body corporate;</p> <p>(b) a document which is held or controlled by a person who has supplied goods or services to the body in pursuance of a contract to which the body was party or who has supplied goods or services in pursuance of a relevant sub-contract; and</p> <p>(c) a document of a description specified in an order made by the Welsh Ministers.</p> <p>(3) For the purposes of subsection (2)(b) a contract is a relevant sub-contract if its performance fulfils, or contributes to the fulfilment of, an obligation to supply goods or services to the body in another contract.</p> <p>(4) The Auditor General for Wales may require a person whom he thinks has information of the kind mentioned in subsection (5):</p> <ul style="list-style-type: none"> (a) to give him any assistance, information and explanation which the Auditor General for Wales thinks necessary for the purposes of his functions under this Part; (b) to attend before him in person to: <ul style="list-style-type: none"> (i) give the assistance, information or explanation, or (ii) produce any document which is held or controlled by the person and to which the right conferred by subsection (1) applies. <p>(5) The information is information which relates to:</p> <ul style="list-style-type: none"> (a) a local government body in Wales; (b) a document to which the right conferred by subsection (1) applies; and (c) a person who holds or controls such a document. |
| | | <p>(7) Every local government body in Wales must provide the Auditor General for Wales with every facility and all information which he may reasonably need for the purposes of his functions under this Part.</p> |

Tabl 6: Awdurdodau statudol ar gyfer y gyfundrefn asesu ac arolygu llywodraeth leol

| Swyddogaeth | Cyfeiriad statudol | Darpariaeth |
|---|--|--|
| Archwiliadau gwybodaeth am welliannau a chynllunio | Adran 17 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 | Mewn cysylltiad â phob blwyddyn ariannol, rhaid i Archwilydd Cyffredinol Cymru gynnal archwiliad er mwyn penderfynu: <ul style="list-style-type: none"> (a) a yw awdurdod gwella Cymreig wedi cyflawni yn ystod y flwyddyn honno ei ddyletswydd o dan adran 15(1) i (7); a (b) i ba raddau y mae'r awdurdod wedi gweithredu yn ystod y flwyddyn honno yn unol ag unrhyw ganllawiau a ddyroddwyd o dan adran 15(8). |
| Asesiadau gwella | Adran 18 o Fesur 2009 | <ul style="list-style-type: none"> (1) Mewn cysylltiad â phob blwyddyn ariannol, rhaid i Archwilydd Cyffredinol Cymru gynnal asesiad er mwyn penderfynu a yw awdurdod gwella Cymreig yn debyg o gydymffurfio â gofynion y Rhan hon yn ystod y flwyddyn honno. (2) Ynghyd ag asesiad o dan is-adran (1), caiff Archwilydd Cyffredinol Cymru gynnal asesiad er mwyn penderfynu a yw'r awdurdod gwella Cymreig yn debyg o gydymffurfio â gofynion y Rhan hon yn ystod blynnyddoedd ariannol dilynol. (Wrth gynnal yr asesiad hwn, noder y byddai disgwyl i'r Archwilydd Cyffredinol ystyried gwybodaeth a dogfennau perthnasol sy'n cael eu derbyn gan reoleiddwyr ac arolygwyr perthnasol eraill o dan Adran 33. Nodir hyn yn Adran 19.) |
| Adroddiadau archwilio ac adroddiadau asesu | Adran 19 o Fesur 2009 | <ul style="list-style-type: none"> (1) Bob blwyddyn ariannol, rhaid i Archwilydd Cyffredinol Cymru ddyroddi mewn cysylltiad â phob awdurdod gwella Cymreig adroddiad neu adroddiadau: <ul style="list-style-type: none"> (a) sy'n ardystio bod yr Archwilydd Cyffredinol wedi cynnal archwiliad o dan adran 17 mewn cysylltiad â'r flwyddyn ariannol flaenorol; (b) sy'n datgan a yw'r Archwilydd Cyffredinol, o ganlyniad i'r archwiliad, yn credu: <ul style="list-style-type: none"> (i) bod yr awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 15(1) i (7); a |

| Swyddogaeth | Cyfeiriad statudol | Darpariaeth |
|---|---------------------------|---|
| | | <p>(ii) bod yr awdurdod wedi gweithredu'n unol ag unrhyw ganllawiau a ddyroddwyd o dan adran 15(8);</p> <p>(c) sy'n ardystio bod yr Archwilydd Cyffredinol wedi cynnal asesiad o dan adran 18 mewn cysylltiad â'r flwyddyn ariannol;</p> <p>(d) sy'n disgrifio i ba raddau y mae gwybodaeth a dogfennau a ddarparwyd i'r Archwilydd Cyffredinol o dan adran 33 wedi eu cymryd i ystyriaeth wrth gynnal yr asesiad hwnnw;</p> <p>(e) sy'n datgan a yw'r Archwilydd Cyffredinol, o ganlyniad i'r asesiad, yn credu bod yr awdurdod yn debyg o gydymffurfio â gofynion y Rhan hon yn ystod y flwyddyn ariannol;</p> <p>(f) sy'n argymhell, os yw'r Archwilydd Cyffredinol yn credu ei bod yn briodol yng ngoleuni unrhyw archwiliad neu asesiad, gamau y dylai'r awdurdod eu cymryd er mwyn cydymffurfio â gofynion y Rhan hon neu weithredu'n unol â chanllawiau a ddyroddwyd o dan adran 15(8) (p'un ai mewn cysylltiad â'r flwyddyn ariannol honno neu flwyddyn ariannol ddiweddarach);</p> |
| Adroddiadau archwilio ac adroddiadau asesu | Adran 19 o Fesur 2009 | <p>(g) sy'n argymhell, os yw'r Archwilydd Cyffredinol yn credu ei bod yn briodol yng ngoleuni unrhyw archwiliad neu asesiad, y dylai Gweinidogion Cymru:</p> <p>(i) rhoi cymorth i'r awdurdod drwy arfer eu pŵer o dan adran 28;</p> <p>(ii) rhoi cyfarwyddyd o dan adran 29 ac, os felly, y math o gyfarwyddyd.</p> <p>(h) sy'n datgan, yng ngoleuni unrhyw archwiliad neu asesiad, a yw'r Archwilydd Cyffredinol o blaid cynnal arolygiad arbennig o dan adran 21.</p> <p>(2) Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol anfon copi o unrhyw adroddiad a ddyroddir o dan yr adran hon</p> |

| Swyddogaeth | Cyfeiriad statudol | Darpariaeth |
|-----------------------------|---------------------------|---|
| | | <p>i'r awdurdod o dan sylw ac at Weinidogion Cymru.</p> <p>(3) Rhaid i gopiâu o adroddiad gael eu hanfon yn unol ag is-adran (2):</p> <ul style="list-style-type: none"> (a) erbyn 30 Tachwedd yn ystod y flwyddyn ariannol y cafodd yr archwiliad ei gynnal ynnddi neu y mae'r asesiad yn ymwneud â hi; neu (b) erbyn unrhyw ddyddiad arall a gaiff ei bennu gan Weinidogion Cymru drwy orchymyn. <p>(4) Ond caiff Gweinidogion Cymru, drwy gyfarwyddyd, bennu dyddiad ar gyfer anfon adroddiad mewn perthynas ag awdurdod gwella Cymreig penodedig sy'n wahanol i'r dyddiad a fyddai'n gymwys fel arall o dan is-adran (3):</p> <ul style="list-style-type: none"> (a) os yw Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi gwneud cais am i Weinidogion Cymru roi cyfarwyddyd o'r fath; a (b) os yw Gweinidogion Cymru o'r farn bod yr amgylchiadau'n eithriadol. |
| Arolygiadau arbennig | Adran 21 o Fesur 2009 | <p>(1) Caiff Archwilydd Cyffredinol Cymru gynnal arolygiad o gydymffurfedd awdurdod gwella Cymreig â gofynion y Rhan hon:</p> <ul style="list-style-type: none"> (a) os yw'r Archwilydd Cyffredinol o'r farn y gallai'r awdurdod fethu â chydymffurfio â gofynion y Rhan hon; neu (b) os bydd unrhyw reoleiddiwr perthnasol yn hysbysu'r Archwilydd Cyffredinol y gallai'r awdurdod, ym marn y rheoleiddiwr, fethu â chydymffurfio â gofynion y Rhan hon. <p>(2) Er hynny, rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol wneud y canlynol cyn penderfynu a ddylid cynnal arolygiad:</p> <ul style="list-style-type: none"> (a) ymgynghori â Gweinidogion Cymru; a (b) mewn achos lle mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi datgan mewn adroddiad o dan adran 19(1)(h) bod yr Archwilydd Cyffredinol o blaid cynnal arolygiad arbennig, ystyried unrhyw ddatganiad ar |

| Swyddogaeth | Cyfeiriad statudol | Darpariaeth |
|--|---------------------------|---|
| | | <p>ffurf ymateb a wneir gan yr awdurdod yn unol ag adran 20(3).</p> <p>(3) Caiff arolygiad o dan is-adran (1) ymwneud â'r cyfan neu rai o swyddogaethau awdurdod.</p> <p>(4) Os bydd Gweinidogion Cymru yn cyfarwyddo Archwilydd Cyffredinol Cymru i gynnal arolygiad o gydymffurfedd awdurdod gwella Cymreig â gofynion y Rhan hon, rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gydymffurfio â'r cyfarwyddyd, oni bai nad yw gwneud hynny'n rhesymol.</p> <p>(5) Caiff cyfarwyddyd o dan is-adran (4) ymwneud â rhai neu'r cyfan o swyddogaethau awdurdod.</p> <p>(6) Cyn rhoi cyfarwyddyd o dan is-adran (4), rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r Archwilydd Cyffredinol.</p> |
| Arolygiadau arbennig | Adran 21 o Fesur 2009 | <p>(7) Rhaid i Archwilydd Cyffredinol Cymru hysbysu awdurdod gwella Cymreig:</p> <p>(a) os yw'r Archwilydd Cyffredinol yn penderfynu cynnal arolygiad o'r awdurdod o dan is-adran (1); neu</p> <p>(b) os yw Gweinidogion Cymru wedi cyfarwyddo'r Archwilydd Cyffredinol i gynnal arolygiad o'r awdurdod o dan is-adran (4).</p> <p>(8) Rhaid i'r hysbysiad bennu'r swyddogaethau y bydd yr arolygiad yn ymwneud â hwy.</p> <p>(9) Wrth gynnal arolygiad ac, yn achos arolygiad o dan is-adran (1), wrth benderfynu a ddylid gwneud hynny, rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol roi sylw i unrhyw ganllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru.</p> <p>(10) At ddibenion y Rhan hon, cyfeirir at arolygiad o dan yr adran hon fel arolygiad arbennig.</p> <p>(11) Yn yr adran hon mae cyfeiriad at swyddogaethau awdurdod yn cynnwys trefniadau sy'n cael eu gwneud i hwyluso neu gefnogi'r modd yr arferir y swyddogaethau hynny.</p> |
| Adroddiadau am arolygiadau arbennig | Adran 22 o Fesur 2009 | <p>(1) Pan fo Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi cynnal arolygiad arbennig, rhaid i'r Archwilydd ddyroddi adroddiad.</p> <p>(2) O ran adroddiad:</p> |

| Swyddogaeth | Cyfeiriad statudol | Darpariaeth |
|-------------------------------|--|---|
| | | <p>(a) rhaid iddo grybwyl unrhyw fater y mae'r Archwilydd Cyffredinol yn credu amdano, o ganlyniad i'r arolygiad, fod yr awdurdod yn methu â chydymffurfio â gofynion y Rhan hon neu ei bod yn bosibl i'r awdurdod fethu yn y cyswllt hwnnw; a</p> <p>(b) caiff argymhell, os yw'n crybwyl mater o dan baragraff (a), fod Gweinidogion Cymru yn gwneud y naill neu'r llall o'r canlynol neu'r ddau, sef:</p> <ul style="list-style-type: none"> (i) rhoi cymorth i'r awdurdod drwy arfer eu pŵer o dan adran 28; (ii) rhoi cyfarwyddyd o dan adran 29. <p>(3) O ran yr Archwilydd Cyffredinol:</p> <ul style="list-style-type: none"> (a) rhaid iddo anfon copi o adroddiad at yr awdurdod o dan sylw ac at Weinidogion Cymru; (b) os gwneir argymhelliaid o dan is-adran (2)(b) mewn adroddiad, rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol drefnu i'r argymhelliaid gael ei gyhoeddi; a (c) caiff gyhoeddi adroddiad ac unrhyw wybodaeth mewn cysylltiad ag adroddiad. <p>(4) Os bydd adroddiad yn datgan bod yr Archwilydd Cyffredinol yn credu, o ganlyniad i arolygiad, fod awdurdod gwella Cymreig yn methu â chydymffurfio â gofynion y Rhan hon, rhaid i'r cynllun gwella nesaf a baratoir gan yr awdurdod gofnodi:</p> <ul style="list-style-type: none"> (a) y ffaith honno, a (b) unrhyw gamau sydd wedi'u cymryd, neu sydd i'w cymryd, gan yr awdurdod o ganlyniad i'r adroddiad. <p>(5) Os bydd adroddiad yn ymwneud i unrhyw raddau â gweinyddiaeth budd-dal tai neu fudd-dal y dreth gyngor, a bod yr Archwilydd Cyffredinol yn gweld yn dda i wneud hynny, rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol anfon copi o'r adroddiad at yr Ysgrifennydd Gwladol cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.</p> |
| Cydlynu archwiliad etc | Adran 23 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 | <p>(1) Rhaid i'r rheoleiddwyr perthnasol ac Archwilydd Cyffredinol Cymru roi sylw i'r angen am gydlynw wrth arfer swyddogaethau rheoleiddio.</p> <p>(2) Ystyr "swyddogaethau rheoleiddio" yw swyddogaethau perthnasol y rheoleiddwyr</p> |

| Swyddogaeth | Cyfeiriad statudol | Darpariaeth |
|--------------------------------------|--|--|
| | | <p>perthnasol a swyddogaethau Archwilydd Cyffredinol Cymru o dan is-adran (7).</p> <p>(3) Mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol, ar ôl ymgynghori â'r rheoleiddwyr perthnasol, rhaid i Archwilydd Cyffredinol Cymru lunio amserlen ar gyfer pob awdurdod gwella Cymreig sy'n nodi barn yr Archwilydd Cyffredinol ynglŷn â'r dyddiadau neu'r amserau yn y flwyddyn honno pryd y dylai:</p> <ul style="list-style-type: none"> (a) rheoleiddwyr perthnasol arfer eu swyddogaethau perthnasol mewn cysylltiad ag awdurdod; a (b) yr Archwilydd Cyffredinol arfer y swyddogaethau sydd wedi eu nodi yn isadran (7) mewn cysylltiad ag awdurdod. <p>(4) Caniateir i'r ddyletswydd o dan is-adran (3) gael ei chyflawni drwy lunio amserlen sy'n ymwneud â mwy nag un flwyddyn ariannol.</p> <p>(5) Mewn perthynas ag awdurdod gwella Cymreig, rhaid i'r rheoleiddwyr perthnasol wrth arfer eu swyddogaethau perthnasol, ac i'r Archwilydd Cyffredinol wrth arfer y swyddogaethau sydd wedi eu nodi yn is-adran (7), gymryd pob cam rhesymol i lynu wrth yr amserlen a luniwyd mewn perthynas â'r awdurdod o dan is-adran (3).</p> |
| Adroddiadau gwella blynnyddol | Adran 24 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 | <p>(1) Mewn perthynas â phob awdurdod gwella Cymreig, rhaid i Archwilydd Cyffredinol Cymru lunio, ar gyfer pob blwyddyn ariannol, adroddiad ("adroddiad gwella blynnyddol") sy'n crynhoi neu'n atgynhyrchu'r adroddiadau sydd wedi eu disgrifio yn is-adran (2).</p> <p>(2) Yr adroddiadau yw:</p> <ul style="list-style-type: none"> (a) pob adroddiad a ddyroddir mewn cysylltiad â'r awdurdod yn ystod y flwyddyn ariannol honno o dan adran 19; a (b) unrhyw adroddiad o arolygiad arbennig o awdurdod a ddyroddir o dan adran 22 yn ystod y flwyddyn ariannol honno. <p>(3) Rhaid i Archwilydd Cyffredinol Cymru:</p> <ul style="list-style-type: none"> (a) cyhoeddi adroddiad gwella blynnyddol pob awdurdod gwella Cymreig; (b) pwysa a mesur, yng ngoleuni adroddiad gwella blynnyddol awdurdod, a ddylid: |

| Swyddogaeth | Cyfeiriad statudol | Darpariaeth |
|--|---------------------------|--|
| | | <p>(i) argymhelliaid sydd wedi ei grybwyl ym mharagraff (b)(i) i (iii) ac y mae'r Archwilydd Cyffredinol yn credu y dylid ei gyflwyno.</p> <p>(ii) argymhelliaid sydd wedi ei grybwyl ym mharagraff (b)(i) i (iii) ac y mae'r Archwilydd Cyffredinol yn credu y dylid ei gyflwyno.</p> <p>(iii) argymhelliaid sydd wedi ei grybwyl ym mharagraff (b)(i) i (iii) ac y mae'r Archwilydd Cyffredinol yn credu y dylid ei gyflwyno.</p> <p>(iv) arfer unrhyw un o swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol mewn perthynas â'r awdurdod;</p> |
| Pwerau a dyletswyddau arolygwyr | Adran 26 o Fesur 2009 | <p>(1) Mae gan arolygydd hawl ar bob adeg resymol:</p> <p>(a) i fynd i mewn i unrhyw fangre sydd gan awdurdod gwella Cymreig, a</p> <p>(b) i weld unrhyw ddogfen sy'n ymwneud â'r awdurdod ac sy'n ymddangos yn angenrheidiol i'r arolygydd at ddibenion yr arolygiad, yr archwiliad neu'r asesiad.</p> <p>(2) Mae'r hawl a roddir gan is-adran (1) yn cynnwys hawl i arolygu neu gopio'r ddogfen neu i fynd â hi oddi yno.</p> <p>(3) Caiff arolygydd:</p> <p>(a) ei gwneud yn ofynnol i berson sy'n dal unrhyw ddogfen o'r fath neu sy'n atebol amdani roi unrhyw wybodaeth neu esboniad i'r arolygydd sy'n angenrheidiol yn ei farn ef, a</p> <p>(b) ei gwneud yn ofynnol i'r person hwnnw ddod yn bersonol ger ei fron i roi'r wybodaeth neu'r esboniad neu i ddangos y ddogfen.</p> <p>(4) Mewn perthynas â dogfen a gedwir ar ffurf electronig, mae'r pŵer yn is-adran (3)(b) i'w gwneud yn ofynnol i berson ddangos dogfen yn cynnwys pŵer i'w gwneud yn ofynnol iddi gael ei dangos ar ffurf sy'n ddarllenadwy ac y gellir mynd â hi oddi yno.</p> <p>(5) Mewn cysylltiad ag arolygu dogfen o'r fath, caiff arolygydd:</p> |

| Swyddogaeth | Cyfeiriad statudol | Darpariaeth |
|--|---------------------------|---|
| | | <p>(a) sicrhau mynediad i unrhyw gyfrifiadur ac unrhyw aparatws neu ddeunydd cysylltiedig y mae'n credu eu bod yn cael neu wedi cael eu defnyddio mewn cysylltiad â'r ddogfen, ac arolygu a gwirio eu gweithrediad; a</p> <p>(b) ei gwneud yn ofynnol i berson o fewn is-adran (6) roi unrhyw gymorth rhesymol y bydd ar yr arolygydd ei angen at y diben hwnnw.</p> <p>(6) Mae person yn dod o fewn yr is-adran hon:</p> <p>(a) os ef yw'r person sy'n defnyddio neu a ddefnyddiodd y cyfrifiadur, neu os defnyddir neu defnyddiwyd y cyfrifiadur ar ei ran; neu</p> <p>(b) os yw'n berson sydd â gofal dros y cyfrifiadur, yr aparatws neu'r deunydd, neu sydd fel arall yn ymwnaed â'i weithredu.</p> |
| Pwerau a dyletswyddau arolygwyr | Adran 26 o Fesur 2009 | <p>(7) Rhaid i awdurdod gwella Cymreig roi i arolygydd bob cyfleuster a phob gwybodaeth y mae ar yr arolygydd angen rhesymol ei gael neu ei chael at ddibenion yr arolygiad neu'r asesiad.</p> <p>(8) Rhaid i arolygydd:</p> <p>(a) oni bai bod yr amgylchiadau, ym marn yr arolygydd, yn eithriadol roi tri diwrnod clir o rybudd am unrhyw ofyniad o dan yr adran hon, a</p> <p>(b) os gofynnir i'r arolygydd wneud hynny, dangos dogfennau sy'n nodi bod yr arolygydd yn berson ag awdurdod i osod gofynion o dan yr adran hon.</p> <p>(9) Mae person sydd, heb esgus rhesymol, yn atal unrhyw bŵer a roddir gan yr adran hon rhag cael ei arfer neu sy'n methu â chydymffurfio â gofyniad gan arolygydd o dan yr adran hon yn euog o dramgydd ac yn agored, o'i golgfarnu'n ddiannod, i ddirwy nad yw'n uwch na lefel 3 ar y raddfa safonol.</p> <p>(10) Gellir adennill unrhyw dreuliau yr â arolygydd iddynt mewn achos cyfreithiol am dramgydd o dan is-adran (9) yr honni ei fod wedi'i gyflawni mewn perthynas ag arolygiad o awdurdod gwella Cymreig wrth yr awdurdod hwnnw, i'r graddau nad oes modd eu hadennill o unrhyw ffynhonnell arall.</p> <p>(11) Yn yr adran 26 hon, ystyr "arolygydd" yw Archwilydd Cyffredinol Cymru, neu berson sy'n cyflawni swyddogaethau Archwilydd Cyffredinol Cymru yn unol â dirprwyaeth a wnaed o dan</p> |

| Swyddogaeth | Cyfeiriad statudol | Darpariaeth |
|--------------------|---------------------------|--|
| | | adran 18 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, ac sy'n cynnal archwiliad o dan adran 17, asesiad o dan adran 18 neu arolygiad arbennig. |

Cyhoeddi adroddiadau

- 29 Mae awdurdodau statudol amrywiol yn galluogi'r Archwilydd Cyffredinol i wneud adroddiad yn adroddiad cyhoeddus. O safbwyt adroddiadau ar gyfrifon ac adroddiadau gwerth am arian/perfformiad yn y sectorau nad ydynt yn cynnwys llywodraeth leol, mae'r ddeddfwriaeth naill ai'n gorfodi neu'n caniatáu i'r Archwilydd Cyffredinol osod y ddogfen berthnasol gerbron y Cynulliad Cenedlaethol. Mae'n ofynnol i'r Cynulliad Cenedlaethol gyhoeddi dogfennau o'r fath o dan Adran 144 o Ddeddf 2006, ac mae ganddynt faint absoliwt mewn perthynas â'r gyfraith ar ddifenwad o ganlyniad i Adran 42. Mae'r dogfennau a osodir hefyd yn rhan o gylch gwaith Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol, sy'n gweithredu o dan Adran 143.
- 30 Gall yr Archwilydd Cyffredinol, o dan Adran 64E o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, gyhoeddi adroddiadau ar ymarferion paru data o dan Ran 3A o'r Ddeddf honno. Gall ymarferion o'r fath gynnwys cyrff llywodraeth leol a chyrff nad ydynt yn gysylltiedig â llywodraeth leol. Mae cynnwys adroddiadau o'r fath yn gyfyngedig mewn sawl agwedd bwysig. Er enghraift, ni all adroddiadau o'r fath gynnwys gwybodaeth am berson penodol os oes modd adnabod y person o'r wybodaeth ac os nad yw'r wybodaeth honno eisoes ar gael i'r cyhoedd. Mae Adran 64D o Ddeddf 2004 hefyd yn cynnwys cyfyngiadau mwy cyffredinol ar ddatgelu gwybodaeth paru data, ac nid ydynt yn gyfyngedig i gyhoeddi. Mae Tabl 7 yn cynnwys rhagor o wybodaeth am swyddogaethau paru data.
- 31 O safbwyt y sector llywodraeth leol, mae gan yr Archwilydd Cyffredinol bwerau a dyletswyddau amrywiol i gyhoeddi adroddiadau a dogfennau eraill, yn benodol o dan adrannau 41, 42, 45 a 56 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 ac adrannau 19, 22 a 24 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Nid yw adroddiadau o'r fath yn cael eu gosod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol (ac eithrio adroddiadau o dan Adran 42 o Ddeddf 2004), ac o ganlyniad nid ydynt yn rhan o gylch gwaith Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad.
- 32 Mae adrannau 26 i 29 o Ddeddf 2004 yn nodi bod adroddiadau'r Archwilydd Cyffredinol ar lywodraeth leol yn adroddiadau cyhoeddus. Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (OS 2014/3362) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gyhoeddi adroddiadau ar gyfer y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu.
- 33 Mae staff sy'n gweithio i'r Archwilydd Cyffredinol yn llunio adroddiadau yn aml ar gyfer rheolwyr neu'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu. Ni chyhoeddir y rhain fel arfer, ond gallant ddod yn adroddiadau cyhoeddus drwy gael eu cyhoeddi gan y rhai sy'n eu derbyn neu drwy gael eu datgelu o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth.

Gwaith arall

34 Mae **Tabl 7** yn crynhoi'r awdurdodau statudol ar gyfer gwaith arwyddocaol Archwilydd Cyffredinol Cymru nad yw wedi'i gynnwys yn yr adrannau blaenorol. Mae'r gwaith yn cynnwys archwilio ceisiadau am grantiau, archwilio (trwy gytundeb) sefydliadau addysg bellach ac addysg uwch, cydweithio ag Estyn, adolygiadau datblygu cynaliadwy, ymarferion paru data, a chymeradwyo ceisiadau i ddefnyddio arian o Gronfa Gyfunol Cymru.

Tabl 7: Awdurdodau statudol ar gyfer gwaith arall

| Swyddogaeth | Cyfeiriad statudol | Darpariaeth |
|--|--|---|
| Ardystio hawliadau, datganiadau ac ati | Paragraff 20 o Atodlen 8 i Ddeddf 2006 | (1) The Auditor General must, if so required by a relevant body, make arrangements for: <ul style="list-style-type: none"> (a) certifying any claim or return in respect of a grant made or subsidy paid to that body by the Welsh Ministers, any Minister of the Crown or any public authority, (b) certifying any account submitted by that body to the Welsh Ministers, any Minister of the Crown or any public authority with a view to obtaining payment under a contract between that body and the Welsh Ministers, the Minister of the Crown or the public authority, (c) certifying that body's calculation under paragraph 5(6)(a) of Schedule 8 to the Local Government Finance Act 1988 (c. 41) of the amount of its non-domestic rating contribution for a financial year, and for certifying the amount calculated, or (d) certifying any return by that body which, by or under any enactment, is required or authorised to be certified by the body's auditor or under arrangements made by the Auditor General. |
| Archwilio corfforaethau addysg bellach ac addysg uwch | Adran 145B o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 | (4) The Auditor General for Wales may, at the request of the Higher Education Funding Council for Wales, give the council advice in connection with the discharge of the council's functions under section 124B(2)(b) of the Education Reform Act 1988 or paragraph 18(2)(b) of Schedule 7 to that Act. (5) The Auditor General for Wales may, at the request of a higher education corporation or further education corporation in Wales: |

| Swyddogaeth | Cyfeiriad statudol | Darpariaeth |
|---|--------------------------------|--|
| | | <p>(a) advise them in connection with the appointment of persons to audit their accounts, and</p> <p>(b) audit their accounts for a financial year.</p> |
| Arolygiadau Estyn sy'n cynnwys cydweithio â'r Archwilydd Cyffredinol | Adran 41A o Ddeddf Addysg 1997 | <p>(1) If requested to do so by the Chief Inspector, the Auditor General for Wales may assist with any inspection under section 38 of a local authority in Wales; and subsections (2) to (5) below have effect where the Auditor General for Wales assists with any such inspection.</p> <p>(2) Section 40 shall apply to the Auditor General for Wales and to any authorised person as it applies to the inspector.</p> <p>(3) Any information obtained by virtue of section 40 by a person falling within one of the categories mentioned in subsection (4) may be disclosed for the purposes of the inspection, or the preparation or making of the report under section 39(1), to a person falling within the other category.</p> <p>(4) Those categories are:</p> <ul style="list-style-type: none"> (a) the Auditor General for Wales and any authorised person; and (b) the inspector and any person assisting him. <p>(5) Any report prepared under section 39(1) shall be prepared by the inspector acting in conjunction with the Auditor General for Wales.</p> |
| Cymeradwyaeth i ddefnyddio arian o Gronfa Gyfunol Cymru | Adran 129 o Ddeddf 2006 | <p>(1) The Auditor General must grant approvals to draw payments out of the Welsh Consolidated Fund from time to time at the request of the Welsh Ministers.</p> <p>(2) An approval to draw may only be granted if, in the Auditor General's opinion, the proposed payment out of the Welsh Consolidated Fund would comply with section 124.</p> <p>(3) A request for the grant of an approval to draw is to be made in any manner which the Welsh Ministers, with the approval of the Auditor General, decide to adopt.</p> <p>(4) Where an approval to draw is granted the Paymaster General must make the funds available to the Welsh Ministers, the First Minister, the Counsel General, the Assembly Commission, the Wales Audit Office or the Public Services Ombudsman for Wales (as appropriate).</p> |

| Swyddogaeth | Cyfeiriad statudol | Darpariaeth |
|---|--|---|
| | | <p>(5) The Paymaster General must make available to:</p> <ul style="list-style-type: none"> (a) the Auditor General, and (b) the principal accounting officer for the Welsh Ministers, <p>a daily statement regarding all the issues made out of the Welsh Consolidated Fund in respect of sums charged on that Fund and other payments out of it.</p> |
| Paru data | Adran 64A o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 | <p>(1) The Auditor General for Wales may conduct data matching exercises.</p> <p>(2) A data matching exercise is an exercise involving the comparison of sets of data to determine how far they match (including the identification of any patterns and trends).</p> <p>(3) The power in subsection (1) is exercisable for the purpose of assisting in the prevention and detection of fraud in or with respect to Wales.</p> <p>(4) That assistance may, but need not, form part of an audit.</p> <p>(5) A data matching exercise may not be used to identify patterns and trends in an individual's characteristics or behaviour which suggest nothing more than his potential to commit fraud in the future.</p> <p>(6) In the following provisions of this Part, reference to a data matching exercise is to an exercise conducted or arranged to be conducted under this section.</p> <p>Gweler hefyd y darpariaethau eraill yn ymwneud â pharu data yn Rhan 3A o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, yn benodol:</p> <p>Adran 64B, Gorfodaeth i ddarparu data;</p> <p>Adran 64C, Darparu data yn wirfoddol;</p> <p>Adran 64D, Datgelu canlyniadau paru data;</p> <p>Adran 64E, Cyhoeddi;</p> <p>Adran 64F, Ffioedd ar gyfer paru data;</p> <p>Adran 64G Cod ymarfer ar gyfer paru data</p> |
| Ymchwiliadau datblygu cynaliadwy | Adran 15 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 | <p>(1) Caiff Archwilydd Cyffredinol Cymru gynnal ymchwiliadau o gyrrf cyhoeddus at ddibenion asesu i ba raddau y mae corff wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth:</p> <ul style="list-style-type: none"> (a) gosod amcanion llesiant, a |

| Swyddogaeth | Cyfeiriad statudol | Darpariaeth |
|-------------|--------------------|--|
| | | <p>(b) cymryd camau i gyflawni'r amcanion hynny.</p> <p>(2) Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal ymchwiliad o'r fath o bob corff cyhoeddus o leiaf unwaith yn ystod y cyfnod a grybwylir yn is-adran (6).</p> <p>(3) Cyn diwedd y cyfnod a grybwylir yn is-adran (6), rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol roi adroddiad ar ganlyniadau'r ymchwiliadau a gynhaliwyd o dan is-adran (1) yn ystod y cyfnod hwnnw i'r Cynulliad Cenedlaethol.</p> <p>(4) Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol osod unrhyw adroddiad y mae'n paratoi o dan isadran (3) gerbron y Cynulliad Cenedlaethol.</p> <p>(5) Wrth gynnal ymchwiliad o dan is-adran (1), rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol:</p> <ul style="list-style-type: none"> (a) ystyried unrhyw gyngor neu gymorth a roddwyd i'r corff cyhoeddus, neu unrhyw adolygiad o'r corff ac argymhellion a roddwyd i'r corff, gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru (gweler Rhan 3), a (b) ymgynghori â'r Comisiynydd. <p>(6) Mae'r cyfnod y cyfeirir ato yn is-adrannau (2) a (3):</p> <ul style="list-style-type: none"> (a) yn dechrau ar y dyddiad sy'n digwydd un flwyddyn cyn y dyddiad y mae etholiad cyffredinol arferol i'w gynnal o dan adrannau 3 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, a (b) yn dod i ben ar y dyddiad sy'n digwydd un diwrnod ac un flwyddyn cyn y dyddiad y mae'r etholiad nesaf o'r fath i'w gynnal. <p>Y diffiniad o weithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn Adran 5 o'r Ddeddf yw 'gweithredu mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau'.</p> |

| Swyddogaeth | Cyfeiriad statudol | Darpariaeth |
|-------------|--------------------|---|
| | | <p>Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal adolygiadau o'r fath mewn perthynas â'r cyrff canlynol (o Adran 6 o'r Ddeddf):</p> <ul style="list-style-type: none"> (a) Gweinidogion Cymru; (b) awdurdod lleol; (c) Bwrdd Iechyd Lleol; (d) yr Ymddiriedolaethau GIG a ganlyn: <ul style="list-style-type: none"> (i) Iechyd Cyhoeddus Cymru; (ii) Felindre; (e) Awdurdod Parc Cenedlaethol ar gyfer Parc Cenedlaethol yng Nghymru; (f) awdurdod Tân ac achub yng Nghymru; (g) Corff Adnoddau Naturiol Cymru; (h) Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru; (i) Cyngor Celfyddydau Cymru; (j) Cyngor Chwaraeon Cymru; (k) Llyfrgell Genedlaethol Cymru; ac (l) Amgueddfa Cymru. |

Ffioedd a chyllid

- 35 Mae'r adran hon yn cynnwys crynodeb o'r awdurdodau'n ymwneud â chyllid Swyddfa Archwilio Cymru ei hun, gan gynnwys llunio amcangyfrifon a chyfrifon blynnyddol, a'n perthynas ariannol â Chronfa Gyfunol Cymru. Cyflwynir y crynodeb hwn yn Nhabl 8.

Tabl 8: Cyllid Swyddfa Archwilio Cymru

| Maes cyllid | Cyfeiriad statudol | Effaith y ddarpariaeth |
|--|----------------------------------|---|
| Perthynas â Chronfa Gyfunol Cymru | Adran 120 o Ddeddf 2006 | Mae'n rhaid i'r holl dderbyniadau sy'n cael eu casglu gan Swyddfa Archwilio Cymru gael eu talu i Gronfa Gyfunol Cymru oni bai fod cynig a basiwyd gan y Cynulliad (rhan o'r cynig cyllidebol blynnyddol) yn caniatáu eu cadw. |
| | Adrannau 125 i 127 o Ddeddf 2006 | Yn nodi bod treuliau Swyddfa Archwilio Cymru yn daladwy gan Gronfa Gyfunol Cymru os nad yw incwm yn talu amdanynt. Mae'r awdurdod i ddefnyddio adnoddau, cadw incwm (gweler uchod) a defnyddio arian o Gronfa Gyfunol |

| Maes cyllid | Cyfeiriad statudol | Effaith y ddarpariaeth |
|--------------------|---|---|
| | | Cymru yn cael ei roi gan y Cynulliad Cenedlaethol mewn cynnig cyllidebol blynnyddol o dan Adran 125. Mae Adran 126 yn darparu ar gyfer cynigion cyllidebol ychwanegol ac mae Adran 127 yn darparu ar gyfer gwasanaeth di-dor os nad yw'r Cynulliad Cenedlaethol wedi pasio cynnig cyllidebol erbyn 1 Ebrill. |
| | Adran 7 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 | Yn gwneud darpariaeth i gyflog a chostau pensiwn yr Archwilydd Cyffredinol gael eu codi ar Gronfa Gyfunol Cymru yn uniongyrchol a chael eu talu o'r gronfa hon. |
| Ffioedd | Adran 20 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 | Mae Adran 20 yn ei gwneud yn ofynnol i Swyddfa Archwilio Cymru godi ffioedd a phennu graddfeydd ffioedd ar gyfer gwaith archwilio llywodraeth leol sy'n cael ei wneud gan yr Archwilydd Cyffredinol. |
| | Adran 27 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 | Yn ei gwneud yn ofynnol i Swyddfa Archwilio Cymru bennu graddfeydd ffioedd ar gyfer gwaith sy'n gysylltiedig â Mesur 2009. |
| | Adran 64F o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 | Yn ei gwneud yn ofynnol i Swyddfa Archwilio Cymru bennu graddfeydd ffioedd ar gyfer ymarferion paru data, ac yn ei caniatáu i godi tâl ar gyfer ymarferion o'r fath a gwblheir gan Archwilydd Cyffredinol Cymru. |
| | Adran 33 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1999 | Mae Adran 33 yn caniatáu i Weinidogion Cymru ddarparu grant i Swyddfa Archwilio Cymru er mwyn cefnogi gwaith yr Archwilydd Cyffredinol o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. |
| | Adran 23 o Ddeddf 2013 | <p>(2) Caiff SAC [Swyddfa Archwilio Cymru] godi ffi mewn perthynas ag archwilio cyfrifon neu ddatganiad o gyfrifon person gan yr Archwilydd Cyffredinol.</p> <p>(3) Caiff SAC godi ffi mewn perthynas â'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> (a) ymchwiliad, ardystiad neu adroddiad o dan baragraff 18(3) o Atodlen 8 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (ymchwiliadau penodol i ddarbodaeth etc person wrth ddefnyddio adnoddau); (b) ymchwiliad a gynhelir ar gais person o dan adran 145 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 |

| Maes cyllid | Cyfeiriad statudol | Effaith y ddarpariaeth |
|--------------------|---|---|
| | | <p>(ymchwiliadau i ddefnydd o adnoddau) neu astudiaeth a wneir ar gais person o dan adran 145A o'r Ddeddf honno (astudiaethau ar gyfer gwella darbodaeth etc mewn gwasanaethau);</p> <p>(c) ymchwiliad neu astudiaeth a gynhelir neu a wneir gan yr Archwilydd Cyffredinol ar gais person o dan adran 46(4) o Ddeddf yr Amgylchedd 1995;</p> <p>(d) unrhyw wasanaeth sy'n cael ei ddarparu neu swyddogaethau sy'n cael eu harfer o dan adran 19.</p> <p>(4) Rhaid i SAC godi ffi mewn perthynas â'r canlynol:</p> <p>(a) darparu gwasanaethau i gorff o dan baragraff 20 o Atodlen 8 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (ardystio hawliadau, ffurflenni etc ar gais corff);</p> <p>(b) astudiaeth ar gais corff addysgol o dan adran 145B o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998.</p> <p>(5) O ran ffioedd a godir o dan yr adran hon:</p> <p>(a) ni chaniateir iddynt gael eu codi ond yn unol â chynllun a baratoir gan SAC o dan adran 24;</p> <p>(b) ni chaiff y ffi fod yn fwy na chost lawn arfer y swyddogaeth y mae'r ffi'n ymwneud â hi[.]</p> |
| | Adran 24 o Ddeddf 2013 | (1) Rhaid i SAC baratoi cynllun sy'n ymwneud â chodi ffioedd gan SAC. |
| | Adran 45 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (astudiaethau gweinyddu budd-daliadau) | Mae'n rhaid i'r ffi fod yn swm rhesymol sy'n cael ei gytuno gan yr Ysgrifennydd Gwladol a Swyddfa Archwilio Cymru. (Ond ni chaiff fod yn fwy na'r gost lawn a ysgwyddir gan yr Archwilydd Cyffredinol wrth gynnal yr astudiaeth, neu wrth gynorthwyo'r Ysgrifennydd Gwladol i gynnal yr astudiaeth.) |

| Maes cyllid | Cyfeiriad statudol | Effaith y ddarpariaeth |
|----------------------------|---|--|
| | Adran 41A o Ddeddf Addysg 1997 (arolygiadau mewn cydweithrediad ag Estyn), Adran 145C o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 (astudiaethau'n ymwneud â landordiaid cymdeithasol) | Mae'n rhaid i'r ffioedd a godir fod yn unol â'r cynllun a baratowyd gan Swyddfa Archwilio Cymru o dan Adran 24 o Ddeddf 2013, ac ni allant fod yn fwy na'r gost lawn a ysgwyddwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol wrth ddarparu'r cymorth. |
| | Adran 37 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (archwiliad eithriadol o gyrrf llywodraeth leol) | Gall y ffi adennill yr holl gost neu ran ohoni yn ôl disgrifiwn Swyddfa Archwilio Cymru. |
| | Adran 23 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 | (1) Rhaid talu ffioedd a symiau eraill y mae'r Archwilydd Cyffredinol yn eu cael, i SAC. |
| Benthyg | Adran 22 o Ddeddf 2013 | Caiff SAC fenthyg symiau mewn sterling (ar ffurf gorddrafft neu fel arall) i'w cymhwyso at y diben o gyfarfod gorwariant dros dro dros symiau sydd ar gael i'w gyfarfod fel arall. |
| Amcangyfrifon | Adran 20 o Ddeddf 2013 | <p>Bydd yr Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru yn paratoi ar y cyd amcangyfrif o incwm a gwariant i'w ystyried gan y Cynulliad Cenedlaethol o leiaf bum mis cyn dechrau'r flwyddyn ariannol.</p> <p>Os yw'r Cynulliad yn dymuno newid yr amcangyfrif, mae'n rhaid iddo ymgynghori â'r Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru a rhoi ystyriaeth i unrhyw sylwadau a wneir gan y naill neu'r llall.</p> |
| Cyfrifon blynnyddol | Paragraffau 33 a 34 i Atodlen 1 o Ddeddf 2013 | Yr Archwilydd Cyffredinol yw swyddog cyfrifyddu Swyddfa Archwilio Cymru, a rhaid iddo baratoi cyfrifon blynnyddol, ar ffurf a bennir gan y |

| Maes cyllid | Cyfeiriad statudol | Effaith y ddarpariaeth |
|--------------------|---------------------------|--|
| | | Trysorlys, i'w harchwilio gan archwilydd a benodir gan y Cynulliad Cenedlaethol. |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone.: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacṣ: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru